Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Benllech
# Neuadd Goronwy Owen
# Tynygongl
# Benllech
# LL74 8SG

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/02/2014**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Meithrin Benllech ym 1965 ac mae'n gwasanaethu pentref arfordirol Benllech a'r ardal o gwmpas. Cynhelir y cylch meithrin cyfrwng Cymraeg hwn mewn ystafell yn Ysgol Goronwy Owen, Benllech, Ynys Môn. Symudodd y cylch i'r safle hwn ar ddechrau Ionawr 2014.

Rheolir y lleoliad gan bwyllgor gwirfoddol ac mae'n ddarparydd addysg fel aelod o Bartneriaeth Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Ynys Môn. Mae hefyd yn aelod cofrestredig o'r Mudiad Ysgolion Meithrin.

Mae'r lleoliad ar agor am bedair sesiwn brynhawn yr wythnos ac yn darparu ar gyfer plant dwy a hanner i bedair oed. Adeg yr arolygiad roedd saith o blant wedi eu cofrestru yn y cylch. Maent i gyd yn hawlio darpariaeth wedi ei hariannu. Adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw blentyn ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig.

Saesneg yw'r iaith a siaredir yng nghartrefi 75% o'r plant. Adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw blant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn mynychu'r lleoliad.

Mae dwy aelod o staff yn cyd-arwain y cylch. Mae un ohonynt yn gweithio tuag at gymhwyster Lefel 3 mewn Gofal Plant ac Addysg yn y Blynyddoedd Cynnar. Mae gan y llall y cymhwyster hwn eisoes. Mae'r ddwy yn gwbl rhugl yn y Gymraeg.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yng Ngorffennaf 2012. Arolygwyd y lleoliad gan Estyn yn Hydref 2007.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Da |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr addysgu yn gyson dda;
- mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o brofiadau cyfoethog sy'n apelio at ddychymyg y plant;
- maent yn gwneud defnydd da iawn o'r ardaloedd dysgu i gyd i gymell y plant a'u hannog i ddatrys problemau; ac
- mae'r cylch yn cyfoethogi'r ddarpariaeth barhaus yn dda iawn i ymateb i themâu tymhorol.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- gan ymarferwyr yr ysgol weledigaeth gadarn i ddatblygu plant y cylch yn gyfathrebwyr rhugl yn y Gymraeg;
- mae'r ymarferwyr yn ymateb yn gadarnhaol i arweiniad ac hyfforddiant yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin;
- mae ddwy gyd-arweinydd yn deall yn dda beth y maent yn ei wneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella; ac
- maent yn ymateb yn dda i ddeilliannau'r broses o fonitro safonau a'r ddarpariaeth.

## Argymhellion

A1 Olrhain cynnydd plant unigol yn fwy manwl er mwyn diwallu eu hanghenion yn llawn

A2 Sicrhau bod yr ardal allanol yn datblygu'n rhan mwy amlwg o'r ddarpariaeth ar gyfer y plant

A3 Cryfhau proses hunanarfarnu'r lleoliad

A4 Datblygu'r pwyllgor rheoli i ymgymryd â rôl mwy strategol wrth gynllunio yn y tymor hir

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | N/A |
|---|---|

**Safonau: N/A**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: N/A**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae staff y cylch yn cynnig ystod o brofiadau cyfoethog i'r plant yn seiliedig ar gyfres o themâu. Maent yn ateb gofynion y Cyfnod Sylfaen yn dda. O ganlyniad, mae'r gweithgareddau'n ddiddorol ac yn apelio at ddychymyg y plant, er enghraifft mynd ar daith siopa, a phrynu deunydd ar gyfer gwneud bwyd i adar yn ôl yn y cylch.

Mae cynlluniau efeithiol gan yr ymarferwyr i sicrhau bod medrau'r chwe maes dysgu yn cael eu darparu o fewn pob un o'r ardaloedd dysgu cyfoethog. O fewn pob thema, maent yn addasu cynnwys yr ardaloedd dysgu ac yn sicrhau bod adnoddau da a gweithgareddau perthnasol ar gael i'r plant. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gynnydd plant.

Mae cynlluniau cadarn iawn i sicrhau bod ymarferwyr yn gallu hybu medrau llythrennedd plant. Mae canllawiau clir ynglŷn â geirfa a phatrymau iaith i'w defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol, a'r modd y gall ymarferwyr modelu iaith dda ar gyfer y plant. O ganlyniad, mae medrau ieithyddol plant o bob gallu yn datblygu'n effeithiol ar lafar, a thrwy fedrau cynnar darllen ac ysgrifennu.

Yn yr un modd, mae'r ymarferwyr yn hybu datblygiad medrau rhifedd plant trwy sicrhau bod cyfleoedd i rifo, didoli, a chyfateb yn digwydd ym mhob un o'r ardaloedd dysgu. Maent hefyd yn darparu cyfleodd cyson i blant ddefnyddio rhifau'n naturiol yn ystod gweithgareddau cyffredinol y cylch, er enghraifft wrth gyfri faint o blant sydd yn y cylch ar ddechrau'r sesiwn.

Mae'r cylch wedi ymrwymo i sicrhau darpariaeth Gymraeg a Chymreig ar gyfer y plant. Maent sicrhau bod gallu plant i siarad Cymraeg yn cael blaenoriaeth uchel iawn yng ngweithgareddau'r cylch. Gwneir defnydd cyson o'r ardal leol wrth gynnig profiadau diddorol i'r plant, er enghraifft wrth ymweld â'r traeth a'r llyfrgell leol. Mae'r plant yn elwa hefyd oddi wrth ymweliadau achlysurol â'r cylch gan weithwyr yn y gymuned, megis yr heddlu.

Mae'r cylch yn sicrhau cyfleodd da i blant ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae offer pwrpasol a rhaglenni addas yn cael eu defnyddio'n gyson gan ddisgyblion i hybu eu dealltwriaeth o'r chwe maes dysgu tra'n gwella eu medrau TGCh.

**Addysgu: Da**

Mae'r ddwy aelod staff yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd wrth weithio gyda'r plant. Maent yn frwdfrydig ac yn effeithiol wrth ennyn diddordeb plant. Maent yn gwneud defnydd da o gwestiynu celfydd i ennyn chwilfrydedd naturiol y plant. Maent yn dilyn penderfyniadau'r plant yn gyson wrth iddynt ddewis pa ardal ddysgu i chwarae ynddi. Ar y cyfan, gydag ychydig o eithriadau, maent yn modelu geirfa a phatrymau iaith briodol ar gyfer y plant.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio adnoddau a chyfarpar yn effeithiol. Maent yn arwain sesiynau ffocws ac yn rheoli ymddygiad y plant yn dda ac yn ymyrryd yn fedrus i gefnogi'r plant ac ymestyn eu dealltwriaeth, lle'n briodol. Maent yn gwneud defnydd da iawn o'r ardaloedd dysgu i gyd i gymell y plant a'u hannog i ddatrys problemau. O ganlyniad, mae'r plant yn medru manteisio'n effeithiol ar gyfleoedd i wneud penderfyniadau ac i ddatblygu geirfa.

Mae'r ymarferwyr yn arsylwi'n briodol ar fedrau plant yn unigol, ac maent yn gwybod yn dda am gynnydd pob un ohonynt. Maent yn nodi'r camau nesaf ar gyfer dysgu ac yn sicrhau bod plant penodol yn derbyn cefnogaeth briodol pan fydd angen. Fodd bynnag, nid yw'r canfyddiadau yn dylanwadu'n ddigon clir ar gynlluniau gwaith dilynol.

Mae'r asesiadau ar ddechrau a diwedd cyfnod pob plentyn yn y cylch yn nodi eu cynnydd yn briodol. Mae'r llyfrynnau i rieni yn cyfleu datblygiadau'r plant ar draws meysydd y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned hapus a threfnus sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les a diogelwch y plant. Mae yma amgylchedd cynnes a chroesawgar dros ben ble mae'r staff yn llwyddo i greu awyrgylch teuluol a chynhwysol. Rhoddir cyfleoedd da i blant fyfyrio, trafod eu teimladau a chymryd eu tro. Caiff pob plentyn ei werthfawrogi a dangosir parch tuag at eu syniadau a'u diddordebau trwy weithgareddau bob dydd. Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn dda wrth iddynt ddysgu am bwysigrwydd tegwch a gonestrwydd. Maent yn gwybod yn dda beth yw'r gwahaniaeth rhwng da a drwg o fewn cyd-destun eu bywydau ifanc.

Mae trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae profiadau megis dathliadau Nadolig yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad ysbrydol y plant. Mae'r trefniadau sefydlu, ynghyd â'r cyswllt dyddiol gyda'r rhieni, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym.

Mae'r staff yn llwyddo i ddatblygu ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini. Anogir y plant i gymryd cyfrifoldeb dros weini ffrwythau a diodydd amrywiol. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i alluogi'r plant i wneud

penderfyniadau ac i gymryd cyfrifoldeb, er enghraifft wrth dacluso a pharatoi ardaloedd dysgu.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan y lleoliad bolisi diogelwch plant ac, yn dilyn hyfforddiant priodol, mae'r staff yn ymwybodol ohono ac o'r camau i'w dilyn.

Er nad oedd plant ag anghenion dysgu ychwanegol penodol adeg yr arolygiad, mae staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau angenrheidiol ar gyfer cefnogi'r plant hyn. Mae'r lleoliad wedi datblygu perthynas agos gyda'r ysgol gynradd sydd yn arwain at drosglwyddiad llyfn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynnes a chadarnhaol yn bodoli yn y lleoliad. Mae'r staff yn dangos hoffter a charedigrwydd tuag at bob plentyn sydd yn arwain at hyrwyddo hyn. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm eang a diddorol. Mae gan y staff gymwysterau addas a phrofiad cadarn o weithio gyda phlant ifanc ac maent yn arwain a chefnogi gweithgareddau yn llwyddiannus. Mae amgylchedd yr ystafell yn cymell ac yn cefnogi'r dysgu a'r addysgu yn effeithiol iawn ac mae digon o gyfleoedd i'r plant ymgolli yn eu profiadau dysgu. Gwneir defnydd ystyrlon o'r ardaloedd dysgu trwy drefnu gweithgareddau sydd yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd yn dda.

Mae'r ymarferwyr yn llwyddo i greu amgylchedd cynnes a symbylus trwy arddangos gwaith y plant a chreu arddangosfeydd lliwgar i gyd-fynd a'r themâu. Gwneir defnydd llawn o'r cyflenwad da o adnoddau yn y lleoliad, ac o adnoddau'r gymuned, i gefnogi'r dysgu. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r ardal tu allan yn achlysurol er mwyn symbylu'r plant. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei defnyddio'n ddigon effeithiol er mwyn galluogi'r plant i gymhwyso eu medrau ar draws yr holl feysydd dysgu.

Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau effeithiol i ddelio â phroblemau ymddygiad gormesol a hyrwyddo cyfle cyfartal a hawliau dynol sy'n hysbys i bawb. Caiff y rhain eu monitro a'u gweithredu'n effeithiol. Mae pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant mewn cymorth cyntaf.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y ddwy sy'n cyd-arwain y cylch weledigaeth gadarn i ddatblygu plant y cylch yn gyfathrebwyr rhugl yn y Gymraeg. Maent yn deall eu rolau yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i arweiniad oddi wrth yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. O ganlyniad, llwyddant i gynllunio'n bwrpasol i ddarparu profiadau ysgogol i'r plant.

Ychydig o aelodau sydd i'r pwyllgor rheoli, a dim ond yn achlysurol y bydd yn cyfarfod. Nid yw'n cyfrannu digon at osod cyfeiriad strategol i'r lleoliad.

Mae'r cylch yn rhoi ystyriaeth briodol i ddeddfwriaeth ac mae'r weinyddiaeth o ddydd

i ddydd yn effeithiol iawn.

Mae'r ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol, sy'n effeithio'n dda ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol, yn arbennig datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd y plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ddwy sy'n arwain y cylch yn adnabod y lleoliad yn drwyadl. Maent yn deall yn dda beth y maent yn ei wneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

Gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol, mae prosesau hunanarfarnu'r lleoliad yn briodol ac yn cysylltu'n dda gyda'r cynllun datblygu. Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen ymarferol sy'n cymhwyso blaenoriaethau'r hunan arfarniad yn amcanion pendant i'w cyflawni. Fodd bynnag, nid yw'r amcanion hyn bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddeilliannau a safonau plant.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol gyda'r awdurdod lleol i fonitro safonau a'r ddarpariaeth. Maent yn ymateb yn dda i ddeilliannau'r broses hon ac mae agweddau ohonynt wedi eu cysylltu'n ystyrlon â'r cynllun datblygu.

Mae ymarferwyr yn awyddus i dderbyn syniadau newydd oddi wrth hyfforddiant, ac arbrofi â gwahanol ffyrdd o weithio a awgrymir gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ychydig o bartneriaethau strategol sydd yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd y ddarpariaeth a datblygiad y plant. Caiff nodau ac amcanion y lleoliad eu rhannu gyda'r partneriaid yn briodol.

Mae perthynas fuddiol rhwng y lleoliad a'r rhieni. Maent yn gefnogol iawn ac yn cyfrannu tuag at llawer o weithgareddau, gan gynnwys codi arian i wella'r ddarpariaeth. Mae bron pob un yn mynegi ei foddhad â'r lleoliad. Maent yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol trwy lyfrynnau, cylchlythyron a hysbysfyrddau sy'n cynnig manylion perthnasol am y lleoliad ac am addysg eu plant. Mae'r ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i drafod ar ddechrau a diwedd pob sesiwn ac mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r polisi 'drws agored' a'r cyfleoedd cyson i gwrdd â'r staff.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos ac yn effeithiol iawn gydag athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr awdurdod lleol a staff y Mudiad Meithrin i wella'r ddarpariaeth a safonau. Mae'r partneriaethau hyn yn llwyddiannus iawn ac yn cael effaith gadarnhaol ar addysg y plant.

Mae'r cysylltiadau â'r gymuned yn cael dylanwad cadarn ar ddysgu'r plant. Mae defnydd adeiladol o ymweliadau i ymestyn profiadau'r plant, ac o gysylltiadau ag asiantaethau a mudiadau lleol i gefnogi'r ymgyrchoedd i godi arian.

Mae’r bartneriaeth â’r ysgol gynradd yn dda. Mae trefniadau clir ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth asesu gyda'r plant ar eu mynediad i'r ysgol. Mae’r bartneriaeth hon yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae staff y lleoliad yn rheoli’r adnoddau’n dda i gefnogi dysgu a gwelliannau. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad wedi’i staffio’n briodol. Mewn cyfnod byr, mae’r lleoliad wedi sicrhau ystod dda o adnoddau dysgu o safon uchel sy’n cefnogi addysgu ar draws cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Gwneir defnydd adeiladol o fedrau’r ymarferwyr i gyflwyno’r cwricwlwm a chefnogi dysgu’r plant. Mae’r staff yn cydweithio’n effeithiol gyda’i gilydd i wella cyflawniadau’r plant. Mae'r trefniadau cynhwysfawr sydd ar gyfer bodloni anghenion datblygu ymarferwyr yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfoes am ddatblygiadau diweddar yn y Cyfnod Sylfaen. Mae yna weithdrefnau priodol i sicrhau ymarferwyr cyflenwi dros dro pe bai un o’r ymarferwyr parhaol yn absennol o’r gwaith.

Mae’r cylch yn trefnu ymgyrchoedd codi arian yn rheolaidd i ychwanegu at y cyflenwad o adnoddau. Gwna’r ymarferwyr ddefnydd effeithiol ar y cyfan o adnoddau’r lleoliad ac o’r cyllid i gynnig darpariaeth dda. Fodd bynnag, nid yw’r pwyllgor rheoli yn sicrhau bod adnoddau ariannol wedi’u cysylltu bob tro â blaenoriaethau ar gyfer gwelliant.

Yn gyffredinol, o ystyried ansawdd yr addysgu, gofal a chyfarwyddyd, mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |